CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED
CYFARFOD 7.30 p.m. 15 Mis Mai 2023

Yn Bresennol: Cynghorydd Elsbeth Page (Cadeirydd), Cyng.Julian Evans, Delme Phillips, Cyng.Elfed Davies a'r Cyng. Robin Bowen.
Cynghorydd Sir: Bryan Davies
Clerc: Enid Davies
Cyfieithydd: Hefin Jones
Ymddiheuriadau: Cyng.Amy Evans, Cyng. Cai Phillips a'r Cyng. Wyn Evans

Materion Personol / Cyhoeddiadau :

11	**Datgelu Buddianau Personol** - Dim
12	**Cadarnhau'r Cofnodion - 17.04.2023** Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17.04.2023 yn gyfnod cywir - cynigiwyd gan y Cyng. Julian Evans, eiliwyd gan y Cyng.Robin Bowen. Cyng. Delme Phillips a'r Cyng. Bryan Davies.

13.	**Materion yn Codi o'r Cofnodion**
a.	Gwasanaeth Bws 460- Mae gwasanaeth Bwcabus ar gael i drigolion Hermon.
b.	.Cyfleusterau Cyhoeddus -Ynni EDF - Nid yw Chris Evans wedi cysylltu â'r Clerc fel y trefnwyd yn dilyn y cyfarfod safle ar 16.3.23 Bydd y Cyng. Sir: Bryan Davies yn uwchgyfeirio'r mater gydag Uwch Swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin.
c.	Traffig drwy Cynwyl Elfed - Ymhellach i'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 31 Mai 2022- Mae mannau wedi eu mesur er mwyn adnabod lle gellir gosod y llinellau melyn dwbl o amgylch y ddau dro dall yn y pentref. Clerc wedi ysgrifennu at Mike Jacob gyda'r bwriad o drefnu Cyfarfod Safle rhwng Mike Jacob, Rheolwr Diogelwch Ffyrdd, Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Cynghorwyr ynghyd â Bryan Davies, Cynghorydd Sir, er mwyn symud materion ymlaen.
d.	Cyffordd Penrhiwcrynfryn a Chyffordd Esgair - Mae'r Clerc wedi gofyn am ymweliad safle gyda'r Rheolwr Diogelwch Ffyrdd, Mike Jacob a Pheiriannydd Diogelwch Ffyrdd - dim ymateb eto.
e	Diffibrilwr Capel Hermon - Mae Marc Gower (Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru) wedi darparu diffibriliwr Zoll AED Plus newydd i Gapel Hermon.Mae "The Circuit" wedi'i diweddaru. Clerci i gysylltu â Marc Gower i drefnu Sesiynau Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diffibrilwyr ar gyfer trigolion yr ardal.
f.	Hysbysfwrdd Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed - Clerc wedi cael manylion a phrisau ar gyfer hysbysfyrddau parod. Penderfynwyd i brynu hysbysfwrdd parod a bydd y Cynghorwr Julian Evans, sydd ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus addas, i'w roi yn ei le. Bydd Cyng. Robin Bowen yn gwirio i sicrhau bod yr hysbysfwrdd wedi'i leoli'n ddiogel.
g.	Diffibriliwr Cyhoeddus - Garej Derwydd - Wedi derbyn gwybodaeth ar 1af o fis Medi bod y cais am diffibriliwr i Ymgyrch Achub Bywyd Cymru wedi bod yn llwyddiannus. Mae cabinet addas wedi'i brynu a'i osod gan Robin Bowen, yn aros i'r diffibriliwr gael ei dderbyn.
h.	Ger y Duad - Diffyg goleuadau stryd ar hyd yr A484 ger SA33 6TQ. Arwel Price (Peiriannydd Goleuadau) wedi ymweld a'r safle ar 26/7/22. Clerc yn aros am diweddariad oddi wrth Arwel Price ynglŷn â datblygiadau. Bydd Bryan Davies (Cyng.Sir) yn dilyn y mater hwn i fyny.

14	**<u>Gohebiaeth.</u>** Mae copïau o'r e-byst perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr - nodwyd.
a.	Côd Ymddygiad - Clerc wedi cymryd enwau'r cynghorwyr sy'n dymuno mynychu'r hyfforddiant a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.
b.	Siân Davies Hill - Goryrru a Gyrru Peryglus drwy Bryn Iwan - Dywedodd y Clerc wrth y cyfarfod bod y mater wedi ei drosglwyddo i Gan Bwyll ac roedd y Cynghorydd Sir Bryan Davies hefyd yn gallu cadarnhau bod y mater yn cael ei drin yn y Cyngor Sir.
c.	Jim Welch ynglŷn â chyfleusterau cyhoeddus - nodwyd y cynnwys.
15	**<u>Cynllunio</u>** **PL/05790** - Cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl wrth gefn amlinelliad W/39856 - Datblygiad - Llain 5, Tir gerllaw Garth, Cynwyl Elfed, Caerfyrddin SA33 6SP. Dyddiad cau 25/5/23. Penderfynodd y Cyngor gefnogi PL/05790 W/39856 gynt. Gofynnodd y Cyngor i'r clerc ysgrifennu at yr adran gynllunio i ofyn am ragor o wybodaeth am faterion cynllunio ar gyfer ymgynghori.
16	**<u>Taliadau a Chyllid</u>** a. M.E. Davies Cyflog 04/23 - £214.35 b. CSB Gwaith Trefnu Cyflog y Clerc - £336.60 c. Zurich Yswiriant - £620.75 Penderfynodd y Cyngor i gytuno i'r taliadau uchod gael eu gwneud.

17	**Materion Priffyrdd** *Clerc wedi gofyn i'r aelodau nodi union leoliad y broblem (megis Cyfeirnod Grid/Côd Post / tirnod adnabyddadwy megis eiddo / Rhif adnabod ffyrdd) wrth adrodd er mwyn helpu'r clerc i drosglwyddo'r wybodaeth gywir pan cysylltu â'r Adran Briffyrdd.*
a.	Mae perchnogion Siop a Swyddfa'r Post Cynwyl Elfed wedi gofyn am ddynodi ardal ychydig y tu allan i'r i'r siop a'r swyddfa bost yn fan llwytho yn ystod oriau agor.
b.	Rhwng Penrhiwcrynfryn a Crynfryn - Twll yn y ffordd.
c	Bwlchnewydd - tu allan i ffin Plwyf Cynwyl Elfed - adroddiadau am deiars wedi'u difetha gan orchudd twll archwilio sydd wedi'i leoli ar y ffordd ac yn beryg.
18	**Unrhyw Mater Arall**
19	**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf** ***Nos Lun 19 .06.23*** 19:30 o'r gloch. Daeth y cyfarfod i ben am 21:30 awr

Arwyddwyd……..

Dyddiad……